Teitl y Swydd: Ffisiotherapydd Perfformiad (Achlysurol Aml-gamp)

Uned/Ysgol: Chwaraeon Met Caerdydd

Gradd: 5A/B

HERA: CMETS145

Prif ddiben y rôl

Mae'r tîm Gwasanaethau Perfformiad yn rhan annatod o'r System Chwaraeon ehangach, gan weithio ar draws rhaglenni perfformiad y brifysgol i ddarparu cymorth o'r ansawdd uchaf gyda'r nod o sicrhau'r profiad gorau posibl i fyfyrwyr-athletwyr. Bydd gan y rôl hon gyfrifoldeb dros ddatblygu a darparu gwasanaethau meddygol i'n Rhaglenni Chwaraeon Perfformiad a TASS. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda'r tîm Gwasanaethau Perfformiad presennol i dyfu'r ddarpariaeth cymorth perfformiad, gan weithredu hefyd fel arweinydd clinigol ar gyfer athletwyr aml-gamp.

Prif gyfrifoldebau a chyfraniadau

- Gweithredu fel cyswllt meddygol gyda'r Prif Hyfforddwyr a Phennaeth Gwasanaethau Perfformiad i ddeall ac ateb anghenion y rhaglenni perthnasol.
- Bod yn gyfrifol am gynllunio a gweinyddu darpariaeth ffisio gadarn ar gyfer rhaglenni perfformiad Chwaraeon Met Caerdydd.
- Arwain y gwaith o ddarparu gwasanaeth ffisiotherapi manwl, gan ddefnyddio'r tîm amlddisgyblaethol (MDT) ehangach, staff academaidd, a'r gweithlu myfyrwyr i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Gweithio'n agos gyda Phennaeth Ffisiotherapi a Phennaeth Gwasanaethau Perfformiad i gydlynu'r gwaith o ddarparu gwasanaeth ffisiotherapi manwl ar gyfer tîm perfformiad Met Caerdydd, gan hefyd ddefnyddio'r tîm amlddisgyblaethol (MDT) ehangach, staff academaidd, a'r gweithlu myfyrwyr i ategu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.
- Lle bo'n briodol, gweithio'n agos gyda chlybiau proffesiynol a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol (NGB) i alinio'r gwaith o gefnogi a rheoli athletwyr sy'n perfformio'n uchel er mwyn creu amgylchedd chwaraeon prifysgol perfformiad uchel.
- Sicrhau bod gan holl chwaraewyr y rhaglenni perfformiad fynediad at brotocol rheoli cyfergyd strwythuredig, a nodi cyfleoedd ar gyfer darpariaeth rheoli cyfergyd addas.
- Cyflwyno prosesau dychwelyd i chwarae (RTP) strwythuredig a phrotocolau cyfergyd sy'n cyd-fynd â chanllawiau'r llywodraeth a'r NGB.
- Sicrhau dull rhagweithiol, cadarn a chydweithredol o ymdrin â rhaglennu paratoi corfforol a darpariaeth clinig drwy gydol y tymor.
- Darparu cymorth meddygol mewn sesiynau hyfforddi cyswllt ac ar ddiwrnodau gêm lle bo angen.
- Darparu adroddiadau digidol rheolaidd i'r Prif Hyfforddwyr a'r tîm Gwasanaethau Perfformiad i gynorthwyo â rhaglennu, cynllunio, dewis timau a gwneud penderfyniadau ar lefel carfan.

- Profiad o ddefnyddio offer diagnostig a systemau rhaglennu a monitro athletwyr (VALD, Gymaware, TrainMyAthlete ac ati).
- Cydlynu a chefnogi'r gwaith o oruchwylio myfyrwyr lleoliad a myfyrwyr interniaeth.
- Cydymffurfio â'r holl brosesau llywodraethu clinigol a chodau ymddygiad, gan gwblhau'r dyletswyddau cysylltiedig ar gyfer safonau gweithredu gofynnol Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS), CSP, a HCPC, gan gynnwys y broses archwilio ac adolygu ar gyfer yr holl feysydd perthnasol.

Manyleb person

Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol

- Gradd mewn ffisiotherapi.
- Aelod o'r Gymdeithas Ffisiotherapi Siartredig
- Wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Proffesiynau Iechyd (HPC).
- PHICIS, ITMiFF neu gymhwyster trawma ymyl y cae arall (neu dystysgrif gofal ar unwaith a gymeradwywyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon Caeredin).

Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol

1. Profiad o gymorth ffisio ar ymyl y cae.
2. Profiad o asesu a thrin cyflyrau cyhyrysgerbydol ac anafiadau chwaraeon.
3. Y gallu i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol ag athletwyr, staff a rhanddeiliaid.
4. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol.
5. Sgiliau datrys problemau a gwneud penderfyniadau rhagorol.
6. Ymrwymiad amlwg i DPP.
7. Y gallu i weithio fel tîm ac yn annibynnol.
8. Ymrwymiad i weithio mewn ffordd hyblyg a dealltwriaeth o oriau a gofynion gweithio ym myd chwaraeon perfformiad.

Dymunol

1. Profiad o ddatblygu darpariaeth gwasanaeth i ddiwallu anghenion timau a/neu athletwyr.
2. Profiad o gyfathrebu a gweithio gyda hyfforddwyr neu arweinwyr Perfformiad.
3. Dealltwriaeth o'r pwysau sy'n wynebu myfyrwyr-athletwyr.
4. Profiad o weithio gydag athletwyr sy'n perfformio'n uchel.

Gofynion sgiliau Cymraeg
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn yr iaith Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau iaith Gymraeg. Os yw sgil wedi'i restru fel un hanfodol yn y tabl isod, sicrhewch eich bod yn dangos hyn yn eich ffurflen gais ar-lein.

Lefel iaith a disgrifiad cyffredinol	Gwrando	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
A1 – Dechreuwr Gallaf ddeall a defnyddio ymadroddion cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn Gymraeg.	Dymunol	Dymunol	Dymunol	Dymunol
A2 - Defnyddiwr sylfaenol Gallaf ymdrin â gwybodaeth syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol.				
B1 - Defnyddiwr canolradd Gallaf gyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n ymwneud â gwaith.				
B2 - Defnyddiwr canolradd uwch Gallaf fynegi fy hun yn Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol.				
C1 - Defnyddiwr rhugl Gallaf gyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg.				
C2 - Defnyddiwr meistr Gallaf gyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg.				

Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

Mae'r swydd hon yn gofyn am wiriad DBS uwch ar gyfer y rhestr gwahardd plant.

Gwybodaeth ategol

Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Nid yw'r disgrifiad swydd a'r fanyleb person hwn wedi'i fwriadu i fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymi i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw penodol i'w gyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.